Estyn

## Arweiniad i Arolygwyr

# Sut rydym yn ei arolygu

Colegau addysg bellach - ar gyfer arolygiadau peilot o 2022



estyn.llyw.cymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

Diben y llawlyfr arweiniad ‘Sut rydym yn arolygu’ 1
Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu colegau addysg bellach 1
Cefndir polisi 1
Ystyried effaith pandemig COVID-19 2

**Trefniadau arolygu** **4**

Cyflwyniad 4
Cyd-destun 4
Egwyddorion arolygu 4
Meddylfryd arolygu 5
Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr 5
Disgwyliadau o ran colegau 6
Materion iechyd, diogelwch a lles 6
Ymateb i honiad ynghylch diogelu 6
Dull arolygu 7
Yr Ystafell Arolygu Rithwir 7
Y tîm arolygu 7
Myfyrwyr arolygu 8
Cysylltu â’r coleg cyn yr arolygiad 8
Cynllunio’r arolygiad a pharatoi’r tîm 9
Yn ystod yr arolygiad 10
Ar ôl yr arolygiad 12
Sicrhau ansawdd arolygiadau 13

# Cyflwyniad

## Diben y llawlyfr arweiniad 'Sut rydym yn arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu ein hymagwedd at arolygu colegau addysg bellach yn 2022. Mae'n esbonio **sut** rydym yn arolygu. Defnyddir y term 'darparwr' trwy gydol y ddogfen hon i gyfeirio at y coleg. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer arolygwyr cofnodol a phob aelod arall o'r tîm arolygu. Gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer darparwyr i gefnogi eu dealltwriaeth o'r meddylfryd arolygu a methodolegau hefyd.

Dylid darllen yr arweiniad ochr yn ochr â'r arweiniad 'Beth rydym yn ei arolygu' mewn addysg bellach, sy'n amlinellu'r fframwaith arolygu. Gall darparwyr ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau'n gweithio a'u helpu i gryfhau eu prosesau hunanasesu a gwella eu hunain.

Pan fydd yr arolygiad yn nodi arfer sy'n werth ei rhannu, bydd arolygwyr yn gwahodd y darparwr i ysgrifennu astudiaeth achos y byddwn yn ei chyhoeddi ar ein gwefan. Pan fydd yr arolygiad yn nodi pryderon pwysig mewn perthynas â safonau, ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant neu arweinyddiaeth a rheolaeth, byddwn yn trefnu gweithgarwch dilynol i gefnogi gwelliant.  Mae arweiniad ar y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ar gael ar ein gwefan.

Mae rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru

## Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu colegau addysg bellach

Yn y sector ôl-16, mae Deddf Dysgu a Sgiliau (2000) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd adrodd ar y canlynol:

- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir
- y safonau a gyflawnir gan y rheiny sy'n derbyn addysg  a hyfforddiant
- ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, gan gynnwys a yw'r adnoddau ariannol y trefnwyd eu bod ar gael i'r rheiny sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio i ddarparu gwerth am arian

## Cefndir polisi

Er nad yw'n cael ei lywodraethu'n uniongyrchol gan y polisïau a'r confensiynau canlynol, mae'r llawlyfr arweiniad yn ystyried y canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004 yn sylfaen ar gyfer llunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc http://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CRC.aspx
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 https://llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-

cymru

- Mesur Dysgu a Sgiliau Cymru (2009) https://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/1/section/21
- Blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu – yn cynnwys:
- Gwarant i Bobl Ifanc: https://llyw.cymru/lansio-gwarant-llywodraeth-cymru-i-bobl-ifanc-yn-swyddogol
- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol:https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cydraddoldeb-hiliol-cymru-wrth-hiliol
- Cynllun Gweithredu LHDTC+: https://llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-gynllun-gweithredu-lhdtc-html
- Cynllun Gweithredu Cymraeg 2050: https://llyw.cymru/cymraeg-2050-ein-cynllun-ar-gyfer-2021-i-2026-html
- Cynllun Gweithredu cyfrwng Cymraeg Addysg Bellach a Phrentisiaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol: https://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/addysgbellachaphrentisiaethau/cymraeg2050/
- Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil: https://llyw.cymru/bil-addysg-drydyddol-ac-ymchwil-cymru

## Ystyried effaith pandemig COVID-19

Bydd pob arolygiad yn dechrau â thrafodaeth gydag arweinwyr am effaith y pandemig ar eu cymuned ddysgu. Bydd hyn yn gyfle i'r darparwr rannu'r heriau cychwynnol a pharhaus a ysgogwyd gan y pandemig gyda'r tîm arolygu.

Trwy gydol yr arolygiad, byddwn yn ystyried cyd-destun y darparwr, ac effaith y pandemig ar bob agwedd ar ei gwaith.

Yn y gorffennol, mae arolygwyr wedi defnyddio ystod o ddata i gefnogi eu gwerthusiadau o ddeilliannau. Mae data allanol (cyhoeddedig) wedi cael ei effeithio gan COVID-19, yn cynnwys canlyniadau asesu cymwysterau galwedigaethol, cyfraddau cwblhau'r fframwaith, canlyniadau a chyrchfannau UG a Safon Uwch a TGAU, er enghraifft. Ni fydd arolygwyr yn gallu cymharu data o fewn y darparwr, nac ar ei draws, na gyda darparwyr eraill wedi'u meincnodi. Ni fyddant yn cymharu data rhwng y cyfnod cyn y pandemig, y cyfnod yn ystod y pandemig a'r cyfnod ar ôl y pandemig.

Wrth ystyried lles ac agweddau at ddysgu, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb y darparwr o gymharu â darparwyr eraill. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried effeithiolrwydd dull y darparwr o sicrhau bod dysgwyr yn mynychu ac yn ymgysylltu â'u dysgu yn rheolaidd, fel rhan o'u gwerthusiad o ddarpariaeth y darparwr ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad. Byddwn yn ystyried pa mor dda y mae'r darparwr wedi gwerthuso ac ymateb i unrhyw newidiadau yn anghenion cymdeithasol ac emosiynol, ymddygiad a lles dysgwyr o ganlyniad i'r pandemig, cau colegau a chanolfannau dysgu, a dysgu o bell.

Byddwn yn ystyried ansawdd y sesiynau addysgu a hyfforddi a'r profiadau dysgu a gaiff dysgwyr dros gyfnod, a ph'un a yw'r rhain yn galluogi dysgwyr i wneud y cynnydd y dylent ei wneud. Byddwn yn ystyried samplau o waith dysgwyr ar-lein, ar bapur neu yn eu ffeiliau yn rheolaidd. Gallai rhan o'r gwaith hwn fod wedi cael ei

gwblhau gartref, yn y gwaith neu drwy weithgareddau dysgu o bell. Gallem ystyried gwaith ymarferol hefyd.

Bydd arolygwyr yn rhoi cyfle i arweinwyr y darparwr friffio'r tîm am effaith y pandemig ar gynnydd y darparwr wrth ddatblygu mentrau newydd a chryfhau'r ddarpariaeth. Bydd arolygwyr yn ystyried y wybodaeth hon fel rhan o gyd-destun y darparwr, a sail y dystiolaeth arolygu sy'n dod i'r amlwg.

# Trefniadau arolygu

## Cyflwyniad

Mae’r adran hon wedi’i chyflwyno mewn ffordd sy’n adlewyrchu dilyniant y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad craidd.

Mae’r arolygydd cofnodol (ACof) yn gyfrifol am gynnal a rheoli’r arolygiad, ac am yr adroddiad arolygu.  Er bod yr arweiniad hwn yn canolbwyntio’n bennaf ar rôl yr arolygydd cofnodol, rhaid i holl aelodau’r tîm gydymffurfio â’r un gofynion arolygu.

## Cyd-destun

Mae’r arweiniad hwn yn ymwneud ag arolygiadau craidd o golegau addysg bellach. Mae Estyn yn arolygu agweddau ar addysg a hyfforddiant ôl-16 trwy weithgareddau eraill yn rheolaidd. Mae rhywfaint o’r gwaith arolygu hwn yn arwain at werthusiadau cyhoeddedig, ond nid yw gweithgarwch arall yn arwain at werthusiadau cyhoeddedig.

**Gwaith arolygydd cyswllt addysg bellach.** Mae gan bob darparwr arolygydd cyswllt sy’n cyfarfod ag uwch arweinwyr yn rheolaidd i drafod materion cyfoes yn gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant, yn ogystal â chynnydd darparwr. Mae ymweliadau’r arolygydd cyswllt yn arwain at adborth llafar a deialog yn ystod yr ymweliad. Mae gwaith yr arolygydd cyswllt yn llywio adroddiadau ymgysylltu, arolygiadau thematig neu grynodebau sector yn yr Adroddiad Blynyddol.

**Adroddiadau thematig.** Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Estyn greu adroddiadau cenedlaethol ar ystod o themâu. Bydd Estyn yn aml yn ymweld â sampl o ddarparwyr neu’n cynnal arolwg o’r holl ddarparwyr fel rhan o’r gwaith hwn. Mae’r ymweliadau’n arwain at adborth llafar ac adroddiadau cenedlaethol yn rhoi lle amlwg i ddarparwyr unigol, lle bo’n berthnasol, gydag astudiaethau achos arfer effeithiol.

## Egwyddorion arolygu

Bydd arolygwyr:

- yn sicrhau bod arolygu o ansawdd uchel ac yn ymatebol i anghenion pob dysgwr
- yn sicrhau bod barnau yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi’u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn cynnwys darparwyr yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys cyfle i’r coleg ddewis enwebai
- yn defnyddio blaenoriaethau gwella’r darparwr fel y man cychwyn ar gyfer yr arolygiad ac i nodi materion allweddol ar gyfer ymchwilio iddynt er mwyn llunio barnau ar ddilysrwydd canfyddiadau’r adroddiad
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennaeth a pharatoi gan y darparwr
- yn cael safbwynt dysgwyr, staff a llywodraethwyr (lle bo’n briodol), a safbwynt rhanddeiliaid eraill

- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl waith arolygu, gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog pa bryd bynnag y byddant yn briodol
- yn adeiladol wrth nodi a chefnogi colegau sydd ag agweddau pwysig neu wendidau i'w gwella

## Meddylfryd arolygu

Dyma ddull Estyn o ran arolygu:

**Teg a diduedd –** mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio i fod yn annibynnol, yn wrthrychol a chytbwys. Rydym yn gadarn a chyson yn ein gwaith. Rydym yn pwyso a mesur y dystiolaeth a'i harwyddocâd i roi barn onest, gredadwy a chywir am gryfderau'r darparwr a'i feysydd i'w gwella.

**Cefnogol –** rydym yn gweithio i arwain darparwyr i weithredu gwelliannau sydd o fudd i ddysgwyr. Rydym yn annog arloesi ac yn cydnabod bwriadau da. Rydym yn gyfeillgar ond mae ein hymagwedd bob amser yn broffesiynol. Rydym yn cefnogi diwygio addysgol. Rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu perthnasoedd ystyrlon gyda darparwyr a sefydliadau lleol a rhanbarthol.

**Myfyriol** – mae gennym feddwl agored. Rydym yn gwrando ar ystod eang o randdeiliaid ac yn myfyrio ar eu hymatebion. Rydym yn ystyriol, yn bwyllog ac yn ofalus. Rydym yn cynllunio cyfleoedd i feddwl yn ofalus am y canfyddiadau arolygu a'u trafod gyda phobl eraill yn y tîm.

**Tryloyw** – rydym yn wybodus ac yn cyfathrebu'n glir, yn uniongyrchol ac yn gryno. Rydm yn defnyddio methodolegau arolygu effeithlon ac effeithiol i ymateb i sefyllfa unigryw'r darparwr. Rydym yn cynllunio gweithgarwch arolygu ac yn adrodd ar gryfderau a meysydd i'w gwella mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amgylchiadau penodol pob darparwr unigol. O ganlyniad, mae ein gweithredoedd yn hyrwyddo ymddiriedaeth a pharch.

## Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr

Mae ein cod ymddygiad yn esbonio sut rydym yn ymgorffori'r meddylfryd arolygu trwy eu gweithredoedd. Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni safonau cod ymddygiad Estyn. Wrth gynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr:

- yn gwrtais ac yn broffesiynol
- yn gwneud eu gwaith gyda didwylledd a sensitifrwydd priodol
- yn gwerthuso gwaith y darparwr yn wrthrychol
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu heffaith ac nid ar sail unrhyw ffafriaeth am ddulliau penodol. Yr allwedd i'r gwerthusiadau yw p'un ai a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas i'r diben o ran

cynorthwyo pob dysgwr i gyflawni safonau uchel a lefelau cadarn uchel o les.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y byddant yn cael hysbysiad eu bod yn rhan o dîm arolygu'r darparwr.

**Disgwyliadau o ran darparwyr**

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol y naill at y llall. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal Cod Ymddygiad Estyn, ond rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol
- darparu tystiolaeth sy'n galluogi arolygwyr i gynnal yr arolygiad mewn ffordd agored, onest a gwrthrychol
- defnyddio systemau electronig Estyn ar gyfer rheoli arolygiadau fel bo'r gofyn
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy am y darparwr
- cynnal trafodaethau pwrpasol gyda'r arolygydd cofnodol ac arolygwyr eraill
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb fod rheolwr neu uwch arweinydd yn bresennol
- tynnu sylw'r arolygydd cofnodol at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas trwy'r enwebai neu uwch reolwr
- gweithio gydag arolygwyr i sicrhau cyn lleied o aflonyddwch a straen ag y bo modd trwy gydol yr arolygiad
- sicrhau iechyd a diogelwch yr arolygwyr tra byddant ar eu safle
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau'r arolygiad hyd nes bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n derfynol

Adeg yr hysbysiad ynghylch yr arolygiad, dylai darparwyr adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb y darparwyr yw amlygu unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau eu harolygiad.

**Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles**

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad yr arolygiaeth ar arolygu diogelu. Os byddant yn sylwi ar unrhyw beth sydd yn eu barn nhw yn risg wirioneddol i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu ddysgwyr, dylai arolygwyr rybuddio rheolwyr yn y darparwr. Ym mhob achos, dylai arolygwyr wneud nodyn electronig ar wahân o'r risg a'u bod wedi rhoi gwybod i reolwyr amdano. Dylai arolygwyr adrodd ar risgiau amlwg yn gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles o dan faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad). Lle bo'r risgiau hyn yn bryder difrifol, dylai arolygwyr gynnwys sylw byr yn nhestun yr adroddiad ac argymhelliad yn yr adroddiad. Bydd Estyn yn anfon llythyr i'r darparwr yn gofyn iddynt amlinellu'r modd y byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg.

**Ymateb i honiad ynghylch diogelu**

Os caiff arolygydd wybod am honiad/amheuaeth ynghylch diogelu sy'n ymwneud â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sy'n agored i niwed, dylai ddilyn y

gweithdrefnau fel y maent wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol 'Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu', sydd ar gael ar wefan Estyn.

## Dull arolygu

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw asesiad y coleg o'i berfformiad ei hun a'i blaenoriaethau, wedi'i ategu gan dystiolaeth berthnasol. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar y gwaith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn cymryd sampl o dystiolaeth i brofi asesiad y coleg ei hun o'i waith.

Y cynnydd a wna dysgwyr o'u mannau cychwyn a'r safonau a gyflawnir ganddynt yw mesurau allweddol ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant y maent wedi'u cael ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth y coleg. Bydd arolygiadau'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, eu hagweddau at ddysgu a'r effaith a gaiff y ddarpariaeth ar gefnogi eu cynnydd a'r safonau a gyflawnir ganddynt. Gall y cyfnod arolygu a nifer yr arolygwyr amrywio yn ôl maint y darparwr.

Byddwn yn cynnal pob arolygiad yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru.

## Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Bydd yr arolygiaeth yn defnyddio system electronig o'r enw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR) ar gyfer rheoli sawl agwedd ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n caniatáu i ddarparwyr lwytho gwybodaeth i fyny cyn yr arolygiad a lawrlwytho arweiniad oddi wrth yr arolygiaeth am y broses arolygu. Hefyd, yr YAR yw'r man lle gall darparwyr fynd at y cwestiynau sy'n dod i'r amlwg gan yr arolygydd cofnodol ar ddechrau'r arolygiad a'r holiaduron ôl-arolygiad.

Rydym yn sicrhau diogeledd gwybodaeth sy'n cael ei lanlwytho trwy gynnal profion hacio ar yr YAR. Mae'r profion hyn yn gwerthuso diogeledd y system. Rydym yn nodi ac yn gweithredu unrhyw gamau i atal mynediad heb awdurdod. Mae gan holl ddefnyddwyr system YAR Estyn enw defnyddiwr a chyfrinair, sy'n cael eu cofnodi a'u cynnal yn ddiogel o fewn cyfeirlyfr gweithredol. Mae'r system hefyd yn cynnwys nodweddion i sicrhau bod cyfrineiriau'n cael eu gwarchod, yn cynnwys darganfod bygythiadau a mynediad amodol.

## Y tîm arolygu

Bydd timau arolygu yn cael eu harwain gan arolygydd cofnodol (AEM), a bydd aelodau eraill o'r tîm yn cael eu dewis o blith AEM, arolygwyr cymheiriaid (o ddarparwyr eraill) neu arolygwyr ychwanegol (AY). Gallai arolygwyr ychwanegol fod ar secondiad neu dan gontract i Estyn.

Pryd bynnag y bo modd, gallem hefyd wahodd arolygydd / adolygydd cymheiriaid rhyngwladol o un o'r arolygiaethau addysg a hyfforddiant yn y Deyrnas Unedig, Iwerddon neu Ewrop, sef ETI (Gogledd Iwerddon), Education Scotland, Ofsted, Quality and Qualifications Ireland (QQI) neu Arolygiaeth Addysg yr Iseldiroedd. Byddant yn gallu dod â safbwynt meincnodi rhyngwladol i'r arolygiad, hwyluso rhannu arfer hynod effeithiol a galluogi rhwydweithio gwell mewn colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru gyda'u cymheiriaid rhyngwladol.

Mae'r arolygydd cofnodol yn rheoli'r tîm arolygu, ac ef/hi yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â'r arolygiad.

Byddwn yn gwahodd darparwyr i ddewis uwch aelod o staff, o'r enw'r enwebai, i weithio gyda'r tîm arolygu. Yn ymarferol, mae bron pob un o'r darparwyr yn derbyn y gwahoddiad, ond nid yw'n ofynnol. Dylai'r enwebai fod â swydd ar lefel ddigon uchel i fod yn gyswllt rhwng y darparwr a'r tîm arolygu ond nid oes angen iddo/iddi fod yn arweinydd y darparwr. Gall darparwyr fynd at yr arweiniad i enwebeion ar baratoi ar gyfer yr arolygiad o ddolenni o fewn y ffurflen cyswllt cychwynnol (FfCC), wedi'i llenwi gan y Cydlynydd Arolygu (CydAr) ac mae ar gael trwy'r YAR.

## Myfyrwyr arolygu (arolygiadau colegau addysg bellach yn unig)

Yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022, bydd Estyn yn parhau i beilota rôl myfyrwyr arolygu mewn arolygiadau o golegau addysg bellach. Nid yw hyn yn cynnwys arolygiadau darparwyr dysgu yn y gwaith na phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Ar ddiwedd y cynllun peilot, bydd Estyn yn adolygu sut mae'r cynllun peilot wedi mynd, a bydd yn penderfynu sut orau i barhau.

Bydd myfyrwyr arolygu yn aelodau llawn o'r tîm arolygu, a byddant yn ymuno â'r arolygiad ar gyfer tridiau cyntaf arolygiad coleg sy'n para wyth diwrnod. Bydd dau fyfyriwr arolygu ym mhob arolygiad. Byddant yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr dysgwyr a staff y coleg, ac yn siarad â dysgwyr o gwmpas y coleg am eu profiadau. Byddant yn cwblhau cofnod o'u tystiolaeth ar ffurflen farnau. Ni fyddant yn arsylwi gwersi.

## Cysylltu â'r darparwr cyn yr arolygiad

Bydd y darparwr yn cael 15 diwrnod gwaith o rybudd am yr arolygiad.

Ar ôl hyn, bydd yr arolygiaeth yn ffonio'r darparwr i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Y cydlynwyr arolygu (CydAr) yn Estyn fydd yn cysylltu â darparwyr i ddechrau. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd y Cydlynydd Arolygu:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad, gan gynnwys ffurflen hunanwerthuso wedi ei llenwi gan y darparwr ar ei ddarpariaeth ar gyfer diogelu, ac yn gwneud y trefniadau ar gyfer ei chael ar ffurf electronig drwy gyfrwng yr Ystafell Arolygu Rithwir
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt ac yn gofyn am sesiwn friffio gyffredinol ynghylch iechyd a diogelwch ar gyfer y tîm ar ddechrau'r arolygiad
- yn pennu a yw'r darparwr yn dymuno cael enwebai, ac os felly, yn cytuno ar rôl yr enwebai ac esbonio'r broses ar gyfer cwblhau arweiniad yr enwebai
- yn trefnu cyfarfod ar ddechrau'r arolygiad, gyda'r enwebai, i roi briff ar iechyd a diogelwch i'r tîm
- yn trefnu cyfarfod ar ddechrau'r arolygiad er mwyn i'r darparwr amlinellu'i flaenoriaethau ar gyfer gwella a'i gam datblygu presennol
- yn darparu dolenni ac arweiniad ar gyfer llenwi holiaduron cyn-arolygiad ar-lein i ddysgwyr, staff, cyflogwyr (lle bo'n briodol) a llywodraethwyr
- yn cytuno ar drefniadau ar gyfer trefnu cyfarfod gyda llywodraethwyr a chyflogwyr (lle bo'n briodol), neu bartneriaid, is-gontractwyr ac aelodau'r consortiwm (lle bo'n briodol)

- yn trefnu bod tystiolaeth ategol ar gael, gan gynnwys samplau o waith dysgwyr
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gwynion a allai godi yn ystod yr arolygiad
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, er enghraifft ystafell ar gyfer yr arolygwyr, parcio a chysylltiad â'r rhyngrwyd
- yn gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ynghylch canfyddiadau'r arolygiad
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiadur ôl-arolygiad
- yn rhoi gwybod i'r darparwr trwy'r ffurflen cyswllt cychwynnol am y trefniadau arolygu allweddol

Bydd y cydlynydd arolygu yn gofyn am y wybodaeth ganlynol gan y darparwr trwy'r ystafell arolygu rithwir cyn gynted ag y bo modd yn dilyn yr hysbysiad ffurfiol am yr arolygiad:

- gwybodaeth allweddol am gefndir y darparwr
- cynlluniau datblygu ansawdd ac adroddiadau hunanasesu diweddaraf y darparwr
- nifer y dysgwyr, gan gynnwys y dysgwyr rhan-amser ac amser llawn hynny, a'u lleoliad
- manylion am amserlenni meysydd cwricwlwm y darparwr ar gyfer cyfnod yr arolygiad
- trefnu dyddiad (fel y cytunwyd gyda'r arolygydd cofnodol) ar gyfer y cyfarfod cynllunio cychwynnol

Os bydd yr arolygiad yn cael ei gynnal ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, gallai Estyn ofyn am samplau o waith dysgwyr o'r flwyddyn flaenorol.

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i ddarparwyr am yr arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am sut i gynnal arolwg cyfrinachol ar-lein o ddysgwyr. Hefyd, bydd Estyn yn darparu holiadur ar-lein cyn-arolygiad ar gyfer llywodraethwyr (lle bo'n briodol), a'r holl staff addysgu, asesu a staff cymorth dysgu sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y darparwr. Bydd canlyniadau'r arolygon yn llunio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad ac yn helpu arolygwyr i lunio cwestiynau datblygol i ymchwilio iddynt.

Hefyd, bydd y tîm yn ystyried yr arolwg diweddaraf o ganfyddiadau dysgwyr a gynhaliwyd gan y darparwr.

Yn ystod yr arolygiad, gallai arolygwyr gyfweld â charfan o ddysgwyr, staff addysgu, asesu a staff cymorth fel rhan o'u proses i gasglu tystiolaeth.

## Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Gan ystyried y blaenoriaethau mae'r darparwr wedi'u nodi ar gyfer eu gwella a'i hadroddiadau hunanasesu, ac unrhyw wybodaeth sydd eisoes ym meddiant Estyn, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnwys (yn y coleg neu ar-lein, fel y bo'n briodol) arsylwi addysgu a hyfforddi, gan gynnwys teithiau dysgwyr a gwaith arall dysgwyr.

## Yn ystod yr arolygiad

### Y cyfarfod tîm cychwynnol

Yng nghyfarfod cychwynnol y tîm arolygu, dylai aelod o staff y coleg roi brîff iechyd a diogelwch. Dylai'r coleg roi datganiad sefyllfa bras ar ei flaenoriaethau strategol a'i gyfnod datblygu presennol. Ar ôl hynny, dylai'r tîm drafod gydag uwch arweinwyr y blaenoriaethau y mae'r coleg wedi'u nodi ar gyfer eu gwella a'r cynnydd y mae'n ei wneud yn ei waith gwella. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cadarnhau'r trefniadau hyn gyda'r coleg yn ystod yr alwad ffôn cyn yr arolygiad.

Bydd arolygwyr yn samplu, yn profi ac yn dilysu blaenoriaethau'r coleg ei hun a'i werthusiadau o'i gryfderau a'i feysydd i'w gwella, ac unrhyw gryfderau a meysydd eraill i'w gwella y mae'r arolygydd cofnodol yn eu nodi. Hefyd, bydd y trafodaethau yn ystyried y dystiolaeth y mae angen i arolygwyr ei hadolygu. Bydd hyn yn cynnwys teithiau dysgu, samplu gwaith ysgrifenedig dysgwyr a chyfweliadau â dysgwyr, staff, cyflogwyr (lle bo'n briodol) a rhanddeiliaid eraill.

### Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad fel y gallant fynd i'r afael â'r gofynion adrodd yn y pum maes arolygu. Bydd y tîm yn sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i adolygu'r dystiolaeth allweddol sydd ei hangen arnynt i lunio'u gwerthusiadau. Dyma'r prif fathau o dystiolaeth:

- tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad a chynnydd dysgwyr
- arsylwi'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu a gweithgareddau eraill
- samplau o waith dysgwyr
- ymatebion i'r arolwg gan ddysgwyr, staff, cyflogwyr (lle bo'n briodol) a llywodraethwyr (lle bo'n briodol)
- trafodaethau gyda dysgwyr, arweinwyr, rheolwyr, llywodraethwyr (neu fwrdd y cyfarwyddwyr, lle bo'n briodol) a rhanddeiliaid allweddol eraill

Bydd arsylwadau uniongyrchol o fedrau ymarferol a gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn cael eu defnyddio gan y tîm lle bynnag y bo modd i gasglu tystiolaeth i ategu eu barnau. Gall arolygwyr ddewis sampl ychwanegol o waith dysgwyr i fodloni anghenion cwestiwn datblygol penodol neu ymestyn eu hymchwiliad i agwedd benodol.

Bydd arolygwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i gasglu tystiolaeth ar gyfer eu gwerthusiad o gynnydd dysgwyr ac ansawdd darpariaeth y darparwr. Gall hyn gynnwys arsylwi sesiynau, yn cynnwys samplu gwersi ar-lein, teithiau dysgu, pan fydd arolygwyr yn symud yn gymharol gyflym drwy nifer o sesiynau addysgu neu hyfforddi yn bwrw golwg ar agwedd benodol ar y ddarpariaeth, cael sgyrsiau â dysgwyr dethol am eu gwaith, a chynnal trafodaethau gydag athrawon unigol am gynnydd dysgwyr yn eu sesiynau hyfforddi, a'r modd y maent yn cynllunio gwaith i fodloni eu hanghenion.

Mae llais y dysgwr yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar gyfer arolygwyr. Bydd trafodaethau gyda dysgwyr yn gyfle i archwilio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u gwaith a'u medrau. Bydd hefyd yn helpu arolygwyr i bwyso a mesur pa mor dda y mae'r coleg yn cefnogi dysgwyr ac yn cyfrannu at eu lles, yn eu barn nhw.

Dylai colegau drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, yn enwedig canlyniadau unrhyw asesiadau cychwynnol a diagnostig, ac asesiadau eraill o anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd hyn yn helpu arolygwyr i farnu cynnydd dysgwyr er mwyn llunio safbwynt am y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni o'i gymharu â mannau cychwyn a'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth.

Bydd angen i'r tîm ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am y coleg a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad.

Pan nad y Prif Weithredwr / pennaeth yw'r enwebai, mae'n bwysig fod yr arolygydd cofnodol yn cynnal cyfarfod byr gyda'r Prif Weithredwr / pennaeth a'r enwebai i egluro materion arolygu a chanfyddiadau bras, datblygol y tîm arolygu.

**Cofnodi tystiolaeth arolygu**

Bydd arolygwyr yn defnyddio amrywiol ffurflenni i gofnodi a choladu eu canfyddiadau a'u gwerthusiadau.

Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni yn electronig fel rhan o system electronig Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau arolygu.

**Cyfarfodydd tîm**

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt corfforaethol, cywir, dibynadwy a dilys am safonau ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Bydd cyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi'r gwerthusiadau yng ngynllunio datblygu ansawdd a phrosesau hunanasesu'r coleg
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg
- adolygu ymweliadau â dysgwyr
- datrys materion cyn-arolygiad a chwestiynau sy'n dod i'r amlwg
- nodi unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad ac unrhyw argymhellion

**Deialog broffesiynol**

Ar ddiwedd sesiwn arsylwi, dylai arolygwyr gynnal deialog broffesiynol fer gyda'r aelod staff sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cynnal y drafodaeth hon yn ddiweddarach yn ystod yr arolygiad.

Dylai prif ffocws y drafodaeth fod ar y dysgwyr, y cynnydd a wnaed ganddynt yn ystod y sesiwn a'r safonau a gyflawnwyd yn ystod y gweithgaredd. Dylai'r arolygydd bwysleisio mai barnau dros dro sy'n dod yw'r amlwg yw'r rhain ar un agwedd ar sail y dystiolaeth, ac y gellir diwygio'r holl farnau, ar ôl myfyrio arnynt, ar ôl craffu ar waith dysgwyr neu siarad â dysgwyr, neu o ganlyniad i safoni o fewn y tîm. Dylai arolygwyr geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu o ran y gweithgaredd penodol a welwyd.

O ganlyniad i natur teithiau dysgu, sydd yn gymharol fyr ac iddynt ffocws craff, a lledaenu'r gweithgarwch ar draws nifer o weithgareddau mewn cyfnod cymharol fyr, ni fydd modd i arolygwyr gynnig deialog broffesiynol i athrawon, hyfforddwyr neu aseswyr unigol ar ôl gweithgarwch taith ddysgu.

### Adborth ffurfiol

Ar ddiwedd y rhan ar y safle o'r arolygiad, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i arweinwyr a llywodraethwyr y coleg. Dylai'r coleg wahodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru i'r cyfarfod hwn. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y prif werthusiadau ar gyfer pob un o'r pum maes arolygu, a'r rhesymau dros y rhain.

Mae'r cyfarfod adborth yn rhoi cyfle i arweinwyr a llywodraethwyr glywed y gwerthusiadau a myfyrio arnynt. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio i'r coleg y gellir cywiro materion ffeithiol a gellir egluro gwerthusiadau, er na ellir eu trafod.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y coleg. Bydd yr arolygydd cofnodol yn rhoi gwybod i'r coleg os oes angen unrhyw weithgarwch dilynol.

Yn ystod yr arolygiad, bydd y tîm hefyd yn ystyried a oes yna unrhyw arfer effeithiol yn y coleg y mae'n werth i golegau eraill ei hystyried a'i hefelychu. Yn yr achos hwn, bydd yr arolygydd cofnodol yn gofyn i'r coleg baratoi astudiaeth (neu astudiaethau) achos i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Mae'r holl werthusiadau yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni a'u dilysu gan PAEM. Maent yn gyfrinachol i staff a llywodraethwyr y coleg. Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt i'r grŵp hwn, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol, hyd nes i ni gyhoeddi'r adroddiad ar ein gwefan.

### Cwynion am ddull cynnal yr arolygiad

Os bydd unrhyw faterion yn codi ynglŷn â dull cynnal yr arolygiad yn gyffredinol neu ymddygiad arolygwyr unigol, yna dylai'r coleg, trwy'r enwebai, godi'r materion hyn gyda'r arolygydd cofnodol yn uniongyrchol, a chyn gynted ag y bo modd. Ni ddylai'r coleg aros tan ar ôl yr arolygiad, ond dylai godi unrhyw faterion yn ystod yr arolygiad ar y safle. Mae materion yn aml yn codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth, ac fel arfer, gellir datrys y rhain yn gyflym ac yn foddhaol yn y coleg yn fuan wedi iddynt ddigwydd.

Ceir arweiniad i golegau ynglŷn â gweithdrefnau cwyno Estyn ar wefan Estyn.

## Ar ôl yr arolygiad

### Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg ac yn ddefnyddiol i'r darparwr.

Pan fyddant yn ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn sydd ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau yn ddwyieithog lle mae colegau wedi gofyn am hyn, yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Estyn.

Rydym yn seilio strwythur yr adroddiad arolygu ar Fframwaith Arolygu Cyffredin a bydd yr adroddiad ar y ffurf ganlynol:

**Ynglŷn â’r coleg**

**Crynodeb**

**Argymhellion**

**Beth sy’n digwydd nesaf**

**Prif ganfyddiadau**

1 Safonau
2 Lles ac agweddau at ddysgu
3 Addysgu a phrofiadau dysgu
4 Gofal, cymorth ac arweiniad
5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

Byddwn yn llunio’r adroddiad o fewn graddfeydd amser statudol neu raddfeydd amser cytûn ar gyfer y sector.

### Y gwiriad cywirdeb ffeithiol

Bydd Estyn yn rhoi drafft hwyr o’r adroddiad i’r coleg er mwyn helpu gwirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Gan amlaf, bydd gan y coleg bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw gamgymeriadau ffeithiol.

Mae’r gwiriad cywirdeb ffeithiol yn canolbwyntio ar ddatrys unrhyw anghywirdeb ffeithiol yn yr adroddiad arolygu. Nid yw’n canolbwyntio ar y canfyddiadau na’r gwerthusiadau. Ceir arweiniad pellach i ddarparwyr ar natur a chwmpas y gwiriad cywirdeb ffeithiol ar wefan Estyn.

Dylai’r coleg godi unrhyw gŵynion am ddull cynnal yr arolygiad yn ystod yr arolygiad ar y safle. Fodd bynnag, os bydd y coleg yn parhau i fod â chwynion heb eu datrys am y dull o gynnal yr arolygiad ar ôl diwedd yr arolygiad ar y safle, yna dylai gyfeirio at ein gweithdrefnau ar gyfer trin cwynion ar ein gwefan. Mae’r gweithdrefnau’n canolbwyntio ar y dull o gynnal yr arolygiad, ac nid ar y canfyddiadau na’r gwerthusiadau a luniwyd gan y tîm arolygu.

## Sicrhau ansawdd arolygiadau

Mae’r arolygiaeth wedi ymrwymo i:

- ddewis, hyfforddi, briffio, cefnogi a defnyddio arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr ychwanegol
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol i alluogi’r enwebai i ymgymryd â rôl weithredol
- deialog reolaidd gyda’r enwebai a’r Prif Weithredwr / pennaeth yn ystod arolygiad
- meini prawf a systemau cofnodi sy’n cydymffurfio â’r Fframwaith Arolygu Cyffredin a’r arweiniad

- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus
- adborth llafar diamwys ar ganfyddiadau'r tîm ar gyfer pob maes arolygu
- adroddiadau clir, cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda

Fel rhan o'n gweithdrefnau sicrhau ansawdd, rydym yn gwahodd colegau i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael i golegau yn yr YAR. Dylai colegau lenwi rhan gyntaf yr holiadur ar unwaith yn dilyn yr arolygiad ar y safle, a'i gyflwyno'n electronig i Estyn drwy system yr YAR. Gall colegau lenwi ail ran yr holiadur yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu, eto drwy system yr YAR.

Dylai colegau godi unrhyw bryderon am ymddygiad arolygydd yn ystod yr arolygiad cyn gynted â phosibl gyda'r arolygydd cofnodol.

Yr arolygydd cofnodol fydd yn sicrhau ansawdd yr arolygiad yn y lle cyntaf. Bydd Estyn yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau ar y safle a bydd yn sicrhau ansawdd pob adroddiad arolygu cyn eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mae ein trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau a'r trefniadau ar gyfer delio â chwynion ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru.